

Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2017 gan bobl Ifanc Cymru

Gwahoddwn ieuenctid ar draws y byd i ymuno gyda ni i alw am gydraddoldeb i bobl Ifanc.

Rydym eisiau cydraddoldeb:-

Yn ein cyfleoedd addysgol; yn ein rhyddid i fyw yn ôl ein rhywioldeb; wrth ymdrin ag anableddau; yn ein cyfleoedd mewn bywyd; yn ein hawliau i ddefnyddio ein hiaith; beth bynnag ein hil a'n daliadau crefyddol.

Heb gydraddoldeb a chydabyddiaeth o'n hawliau, ceir yr argraff anghywir ohonom ni, y bobl ifanc

Rydym eisiau i'n lleisiau gael eu clywed, rydym eisiau i'n lleisiau gael eu parchu.

Mynnwn yr hawl i bawb fynegi eu barn ac i bobl ifanc fwrw eu pleidlais, gan ofyn i eraill siarad gyda ni, cyn siarad ar ein rhan ni.

Nid oes gennym yr holl atebion ac mae gennym ein gwendidau ond rydym yn eu cydnabod ac mae gennym le i wella.

Mynnwn dderbyn y wybodaeth gywir

Mynnwn gael ein haddysgu am faterion cymdeithasol, gwleidyddol a rhyngwladol - trwy anogaeth ac nid gorfodaeth a thrwy hynny medrwn ddylanwadu ar eraill.

Gyda'n gilydd, gallwn godi safonau ein cymdeithas ar gyfer ein cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol - a sicrhau taw cydraddoldeb sydd wrth wraidd penderfyniadau'r dyfodol.